

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU
**Adroddiad ar yr Ymateb i
Ymgynghoriad**

**Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg
arbennig yn y Fro drwy sefydlu canolfan adnoddau
arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore o fis Medi
2021.**

Cynnwys	Tudalen
Y Cefndir	3
Amlinelliad o'r broses ymgynghori	3
Ymatebion i'r ymgynghoriad	4
Casgliad	6
Atodiad A - Crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny	8
Atodiad B - Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig	12
Atodiad C - Cwestiynau cyffredin	13
Atodiad Ch - Yr ymgynghoriad a gynhaliwyd â phobl ifanc	14
Atodiad D - Ymateb Estyn	17
Atodiad Dd - Cofnodion y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant	19
Atodiad E - Ymateb gan gorff llywodraethu Ysgol Uwchradd Whitmore	20

Y Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o **5 Hydref 2020** hyd **20 Tachwedd 2020**, mewn ymateb i gynnig y Cyngor i drawsnewid addysg arbenigol drwy sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore o fis Medi 2021.

Mae'r adroddiad hwn ym amlinellu'r broses ymgynghori, yn rhoi trosolwg o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cynnig manylion pellach am faterion allweddol a godir a sylwadau ffafriol a wneir gan randdeiliaid.

Mae'r terminoleg wedi cael ei ddiweddarau ers llunio'r cynnig, felly bydd cyflwr y sbectrwm awtistiaeth (ASC) yn disodli cyfeiriadau at anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth (ASD).

Amlinelliad o'r broses ymgynghori

Dilynodd y prosesau ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhoddodd y prosesau ymgynghori gyfle i ymgynghoreion rhagnodedig gael dysgu am y cynnig, ac i Gabinet y Cyngor gael clywed safbwyntiau pawb â diddordeb fel bo modd ystyried y safbwyntiau hynny cyn dod i unrhyw benderfyniad.

Cyhoeddi'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol drwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgynghoreion rhagnodedig, ac a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar 5 Hydref 2020. Yn ogystal â hyn, darparwyd dolen drwy e-bost i ymgynghoreion i wefan Cyngor Bro Morgannwg. Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori yn ganolog i'r broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac fe'i rhagnodir gan Lywodraeth Cymru yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r cynnig dan ystyriaeth, y sail resymegol ar gyfer y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Dywedwyd wrth yr ymgynghoreion fod fersiwn ar-lein hefyd ar gael i'w llenwi.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer yr ymgynghoriad

Ymgysylltwyd ag ymgynghoreion rhagnodedig er mwyn ymgynghori ar y cynnig, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Ymgynghorwyd â'r grwpiau canlynol:

Staff (staff addysgu ac aelodau eraill o staff) yn Ysgol Uwchradd Whitmore (YUW).	Corff Llywodraethu YUW
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant YUW	Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
Cynghorau Tref a Chymuned	Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Bro Morgannwg (EYDCP)

Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Cynghorwyr Lleol
Aelodau Senedd Cymru (ASau Cymru) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Senedd Rhanbarthol	Comisiynydd y Gymraeg
Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)	Ysgolion cynradd ac uwchradd ym Mro Morgannwg
Estyn	Cydwasaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Yr Undebau Llafur
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Lleol	Cyfarwyddwyr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	

Gwahoddwyd ymgynghoreion i lenwi ffurflen ymateb ffurfiol yr ymgynghoriad y gellid ei llenwi ar ffurf copi caled neu ar-lein drwy wefan y Cyngor yn:

www.valeofglamorgan.gov.uk/whitmorespecialistresourcebase

Oherwydd goblygiadau parhaus y Coronafeirws, ni chynhaliwyd sesiynau galw heibio i rieni a'r gymuned er mwyn cyfyngu ar y graddau y bydd staff, rhieni a'r gymuned ehangach yn cymysgu â'i gilydd. Fodd bynnag, cynhaliwyd sianelau cyfathrebu agored drwy gydol yr ymgynghoriad, dros y ffôn a thrwy e-bost. Cafodd y Cwestiynau Cyffredin hefyd eu diweddarau i adlewyrchu ymholiadau a godwyd drwy gydol y cyfnod ymgynghori (Atodiad C).

Er mwyn cynnwys y disgyblion yn y broses ymgynghori, cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gan gorff annibynnol a oedd yn cynnwys sawl disgybl o Ysgol Uwchradd Whitmore. Ceir hyd i adroddiad ar ganlyniad y sesiwn hon yn Atodiad Ch.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Gofynnwyd i'r ymgynghoreion am eu barn ar y prif gwestiwn:

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbennig drwy sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore o fis Medi 2021?

Roedd yr ymgynghoreion yn gallu ateb drwy nodi Ydw, Nac ydw, neu Dim barn y naill ffordd na'r llall.

Cynigiwyd cyfle iddynt hefyd roi sylwadau pellach:

"Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion, nodwch y rhain isod."

"Unrhyw sylwadau eraill?"

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Rhoddir amlinelliad isod o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd mewn ysgrifen rhwng 5 Hydref 2020 a 20 Tachwedd 2020.

Crynodeb o'r ymatebion

Daeth 19 o ymatebion unigol i law erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. Roedd pob un o'r 19 o ymatebwyr (100%) o blaid y cynnig. Cafwyd ymatebion oddi wrth amrywiaeth o ymgynghoreion, gan gynnwys rhieni, staff a phreswylwyr lleol.

Yr ymatebion yn fanwl

Atodiad	Disgrifiad
Atodiad A	Gellir gweld crynodeb o'r prif faterion a godwyd gan ymgynghoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny yn Atodiad A.
Atodiad B	Gellir gweld crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig yn Atodiad B.
Atodiad C	Mae'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin wedi cael ei diweddarau i gynnwys y prif gwestiynau a godwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu (Atodiad C).
Atodiad Ch	Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori â disgyblion cynrychioliadol o Ysgol Uwchradd Whitmore i gynnwys y disgyblion yn y broses ymgynghori. Gellir gweld adroddiad ar ganlyniad y sesiynau hyn yn Atodiad Ch.
Atodiad D	Cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan Estyn, ac mae'r ymateb hwnnw wedi'i gynnwys yn Atodiad D.
Atodiad Dd	Cyfeiriwyd y ddogfen ymgynghori i sylw Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 12 Tachwedd 2020. Gellir gweld cofnodion y cyfarfod hwn yn Atodiad Dd.
Atodiad E	Cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan gorff llywodraethu Ysgol Uwchradd Whitmore, ac mae'r ymateb hwnnw wedi'i gynnwys yn Atodiad E.

Casgliad

Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd drwy gydol y cyfnod ymgynghori, mae'r Cyngor wedi ailystyried y cynnig er mwyn pennu'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio.

Ansawdd a safonau addysg

Mae'n debygol y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg. Fel y nododd ymatebwyr, byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer disgyblion ASC yn galluogi mwy o ddisgyblion i gyrchu addysg brif ffrwd - disgyblion a allai fel arall gael eu heithrio.

Mae'r adeilad a'r safle newydd yn YUW wedi'u dylunio i fodloni anghenion ystod eang o ddisgyblion, a byddent yn cynnig mynediad ehangach at y cwricwlwm ac at weithgareddau allgyrsiol.

Byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn cael ei rheoli gan y Pennaeth a chorff llywodraethu YUW. Mae'r ardal wedi'i chynllunio i gynnig darpariaeth i hyd at 20 o ddysgwyr. Cynigir bod y ganolfan yn cael ei sefydlu wrth agor adeilad newydd yr ysgol o fis Medi 2021.

Yn ei ymateb, nododd Estyn "nid yw'r cynnig hwn yn debygol o gael effaith niweidiol ar ddysgwyr, ac mae'n debygol y bydd safonau addysg o fewn yr ardal yn cael eu cynnal o leiaf."

Yr Effaith ar y Gymuned

Cafodd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ei gynnal a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Casgliad yr asesiad yw y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol drwy gynyddu cyfleusterau cymunedol. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Trefniadau teithio

Bydd y Tîm ADY yn penderfynu ynghylch cymhwystra disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol ag anghenion teithio penodol na ellir eu bodloni drwy addasiadau rhesymol i drafnidiaeth brif ffrwd.

Bydd disgyblion ADY yn gymwys i dderbyn trafndiaeth am ddim i'r ysgol os asesir bod ganddynt anawsterau difrifol ac/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth, neu ddsbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu bellach (disgyblion oed cynradd) a 3 milltir neu bellach (disgyblion oed uwchradd) o gyfeiriad cartref y rhieni, wedi'i fesur ar sail y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Ystyrir cynnig trafndiaeth am ddim i'r ysgol ar sail unigol i ddisgyblion ADY sy'n byw o fewn y terfynau 2 a 3 milltir, gan gydymffurfio ag Adran 9 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a sicrhau tegwch a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau na cheir unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon rhwng dysgwyr. Gwneir y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad â'r holl bartïon perthnasol. Os na all disgybl gerdded i'r ysgol (naill ai gyda chefnogaeth oedolyn priodol neu'n annibynnol, yn dibynnu ar ei oedran/allu) neu oherwydd natur ei anghenion dysgu

ychwanegol neu anabledd, bydd y Cyngor yn darparu trafndiaeth am ddim rhwng y cartref a'r ysgol, hyd yn oed os yw'r pellter yn llai na'r terfyn statudol. Y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr, ar y cyd â'r ysgolion a'r Tîm Anghenion Cymhleth, fydd yn penderfynu ynghylch hyn. Os oes modd, ac ar gytundeb y dysgwr, y rhiant/gofalwr, yr ysgol a'r Gwasanaeth Gwella a Chynhwysiant Ysgolion, gellir darparu cydymaith, yn lle trafndiaeth, fel bo modd i'r disgybl gyrraedd yr ysgol yn annibynnol. Mae hyn yn hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy ac yn annog byw'n annibynnol yn ogystal â iechyd a lles.

Mae gofod ar gyfer Canolfan Adnoddau Arbenigol wedi'i gynnwys yn rhan o'r adeilad newydd sy'n cael ei godi ar hyn o bryd ar gyfer Ysgol Uwchradd Whitmore. Cyflwynwyd cais cynllunio llawn ar gyfer dyluniad yr ysgol newydd, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cynllunio ar 31 Gorffennaf 2019. Roedd y cais cynllunio yn cynnwys asesiad llawn o drafndiaeth a chynllun teithio. Bydd yr adeilad newydd hefyd yn cynnwys mesurau i annog teithio llesol, fel darparu man cysgodol i storio beiciau.

Atodiad A - Crynodeb o'r prif faterion a godwyd gan ymgynghoreion statudol ac ymateb y Cyngor i hynny

Dyma grynodeb o'r prif faterion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae'r materion hyn yn rhoi trosolwg o'r ymatebion ac ni fwriedir iddynt roi ailadroddiad gair-am-air ohonynt. Mae'r holl ymatebion ysgrifenedig wedi cael eu darparu i Aelodau'r Cabinet.

Mater 1

Y math o gefnogaeth sydd ar gael gan y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn YUW.

Gofynnodd ymatebydd a ellid ehangu cylch gwaith y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn YUW i gynnwys disgyblion sydd angen cefnogaeth ymddygiadol ac emosiynol, yn ogystal â chefnogi disgyblion ASC. Yn gysylltiedig â hyn, roedd ymatebydd arall am sicrhau y byddai modd i ddisgyblion â dyslecsia gael cefnogaeth oherwydd gall eu hanghenion weithiau gael eu hanwybyddu o fewn darpariaeth ADY.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Mae'r cynnig hwn yn golygu sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn YUW i gynnig cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion ag ASC gan sicrhau ar yr un pryd eu bod yn gallu derbyn addysg uwchradd brif ffrwd. Byddai'r holl dderbyniadau i'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn YUW yn cael eu prosesu drwy Banel yr Awdurdod Lleol, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Ymgysylltu ac YUW.

Er y byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn YUW yn canolbwyntio ar ddisgyblion ASC, byddai adeilad newydd yr ysgol yn gwella'r amgylchedd dysgu ac yn cynyddu cyfleusterau i gefnogi llesiant yr holl ddisgyblion; byddai hyn yn cynnwys darparu ardaloedd ymneilltuo ar gyfer gofal bugeiliol ac ardaloedd y tu allan sy'n addas i ddibenion hamdden neu fyfrio. Byddai hyn o fudd i ddisgyblion â mân anghenion ymddygiadol ac emosiynol ychwanegol.

Mae Strategaeth ADY y Cyngor yn cynnwys tair prif cydran:

- Sefydlu Canolfan Dysgu a Llesiant newydd, a fydd yn disodli Y Daith, uned cyfeirio disgyblion (UCD) y Cyngor;
- Sefydlu canolfannau adnoddau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at addysg brif ffrwd; a
- Chynyddu capasiti Ysgol y Deri, ysgol arbennig y Cyngor, er mwyn bodloni'r galw a ragfyneir am addysg arbenigol.

Byddai canolfannau adnoddau ychwanegol yn cael eu hystyried wrth i'r cyfle godi.

Yn rhan o strategaeth ADY y Cyngor, cynigir lleoedd ADY pellach drwy gynyddu capasiti Ysgol y Deri (YYD), sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone, a sefydlu Canolfan Dysgu a Llesiant newydd (CDaLI) (i gymryd lle Uned Cyfeirio Disgyblion y Cyngor). Byddai'r CDaLI newydd yn gweithredu o fis Medi 2021, ac yn cynnig darpariaeth yn benodol i ddisgyblion o Gyfnodau Allweddol 3 a 4 ag anghenion Cymdeithasol, Emosiynol a Iechyd Meddwl (CEIM). O dan reolaeth YYD, byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Gladstone yn parhau â'r dull seiliedig ar

drawma o gefnogi disgyblion ag anghenion CEIM cymhleth. Mae hyn wedi cael ei dreialu'n llwyddiannus ar lefel gynradd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Byddai'r cynllun i ehangu YYD hefyd yn cefnogi rhai o'n disgyblion ag anghenion cymhleth sydd yn fwyaf agored i niwed.

Mae'r cynigion hyn yn destun ymgynoriadau ar wahân, ond o'u cymeradwyo, byddent yn cynnig ymagwedd gyfannol at ADY o fewn y Fro, i fodloni anghenion disgyblion sydd angen ystod eang o gymorth ychwanegol.

Mater 2

Holi a fyddai adnoddau priodol ar gael i weithredu'r cynnig, a sut y gellid tarfu cyn lleied ag sy'n bosibl ar staff a disgyblion wrth newid o'r naill drefn i'r llall.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:

Adnoddau ariannol

Cost cyfalaf gwaith codi'r adeilad newydd yn YUW yw £30,504,000. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu ar y cyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru, drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo achos busnes llawn y Cyngor am £22,622,000 o gyllid. Mae'r £7,882,000 sy'n weddill wedi'i gynnwys yn rhaglen gyfalaf y Cyngor.

Mae'r adeilad newydd yn cael ei godi ar hyn o bryd, ac i fod i gael ei gwblhau ar gyfer mis Medi 2021.

Byddai angen cyllid refeniw ychwanegol i ariannu'r ddarpariaeth. Byddai dull fesul cam yn cael ei fabwysiadu, gan gynnig darpariaeth i 10 disgybl o fis Medi 2021, gan gynyddu i 20 disgybl o fis Medi 2022.

Byddai'r Cyngor yn darparu cyllid trosiannol ychwanegol yn rhan o gyllideb 2021/22 i benodi arweinydd y ddarpariaeth cyn iddi gael ei hagor.

Byddai angen cyflogi athro/athrawes arweiniol ar gyfer y ganolfan o fis Ebrill 2021 er mwyn sicrhau bod gwaith cynllunio effeithiol yn cael ei gwblhau cyn agor. O fis Medi 2021, byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i dalu am gynorthwywyr cymorth dysgu, y byddai angen eu cyflogi i roi cymorth uniongyrchol i ddysgwyr. O fis Medi 2022 byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i dalu am athro/athrawes a chynorthwywyr cymorth dysgu ychwanegol i gyd-fynd â'r cynnydd mewn disgyblion.

Byddai'r ysgol hefyd yn derbyn cyllid a arweinir gan ddisgyblion yn rhan o'r fformiwla cyllido ysgolion, a fyddai'n seiliedig ar nifer y disgyblion ar y gofrestr.

Mae cais ar gyfer pwysau ychwanegol o ran costau wedi cael ei gyflwyno o £176k ar gyfer 2021/22 a £180k arall yn 2022/23. Byddai'r gallu i weithredu'r cynnig yn ddibynnol ar argaeledd y cyllid refeniw angenrheidiol.

Adnoddau dynol ac anghenion dysgwyr

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'r Cyngor yn sefydlu tîm prosiect i gefnogi'r prosiect. Byddai'r tîm prosiect yn cynnwys y Pennaeth Anghenion Dysgu

Ychwanegol a Llesiant, cynrychiolwyr o Dîm y Cyngor ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, a chynrychiolwyr o YUW.

Byddai tîm y prosiect yn gyfrifol am ddatblygu cynllun prosiect i ddarparu'r cynnig erbyn mis Medi 2021, pan fyddai adeilad newydd YUW wedi'i gwblhau. Byddai angen ystyried y canlynol yng nghynllun y prosiect:

- Datblygu'r ddarpariaeth;
- Datblygu'r strwythur staffio;
- Nodi unrhyw anghenion hyfforddi;
- Rheoli derbyniadau i'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol o fis Medi 2021; a
- Nodi'r adnoddau priodol i gyflenwi'r ddarpariaeth.

Byddai'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth lawn i'r staff a'r corff llywodraethu er mwyn sicrhau bod y cynnig yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Cafodd yr ymagwedd hon ei mabwysiadu'n llwyddiannus i ddarparu addysg uwchradd gymysg yn y Barri yn rhan o brosiect Trawsnewid Addysg Uwchradd yn y Barri.

Byddai'r Ganolfan yn cael ei rheoli gan y Pennaeth a chorff llywodraethu YUW. Mae'r ardal wedi'i chynllunio i gynnig darpariaeth i hyd at 20 o ddysgwyr. Cynigir bod y ganolfan yn cael ei sefydlu wrth agor adeilad newydd yr ysgol o fis Medi 2021.

Yn eu sesiynau ymgynghori, nododd y disgyblion fod "angen cynnal sgwrs â'r dosbarthiadau prif ffrwd ynglŷn â'r uned, a chreu 'ethos' o fod yn dderbyngar/goddefgar". Un o brif rolau'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol fyddai cefnogi gweithredu polisiâu a gweithdrefnau drwy'r holl ysgol i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i'r holl ddisgyblion yn YUW. Yn ystod y cyfnod trosiannol, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r staff a'r corff llywodraethu i sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu gweithredu i sefydlu diwylliant o ddealltwriaeth a chydweithrediad rhwng disgyblion prif ffrwd a rhai â diagnosis ASC sy'n mynychu'r ganolfan. Byddai angen nodi anghenion hyfforddi drwy'r ysgol yn ystod y cyfnod trosiannol, a byddai'r anghenion hynny'n cael ei gynnwys yn rhan o raglen hyfforddi a datblygu'r ysgol.

Byddai'r ysgol yn recriwtio staff ychwanegol i gefnogi dysgwyr o fewn y ganolfan, a fyddai'n cynnwys penodi athro/athrawes arweiniol i reoli'r ddarpariaeth. Byddai ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal â'r staff, a'r undebau llafur perthnasol lle bo angen, ynghylch unrhyw newidiadau a gynigir o ran staffio.

Mater 3

Holi sut y bydd y cynnig yn cefnogi'r Cynllun strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ac yn bodloni anghenion disgyblion Cymraeg eu hiaith ag ASC.

Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, er bod YUW yn addysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, mae'r safonau uchel a gyrhaeddir yn y Gymraeg yn cyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i annog siaradwyr dwyieithog.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn darparu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Fro. Cynhaliwyd arolygiad gan Estyn yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ym mis Mawrth 2019. Yn ôl yr adroddiad: "Mae trefniadau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn arbennig. Mae'r map darpariaeth yn gynhwysfawr ac mae'r cynlluniau addysg unigol yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu cymorth teilwredig i gefnogi'r disgyblion hyn trwy ystod eang o ymyraethau. Mae'r ysgol yn monitro effaith

y gefnogaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn agos ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn cael ei haddasu i anghenion y disgyblion hyn."

Mae YYD, ysgol arbennig y Cyngor hefyd yn darparu cymorth i ddisgyblion ag ASC mewn ysgolion prif ffrwd drwy athro arbenigol sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion ag ASC mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn derbyn cymorth priodol. Os oes angen cefnogaeth ychwanegol i unigolion, ceir darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy benodi cynorthwyr cymorth dysgu dwyieithog.

Atodiad B - Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig.

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r prif themâu a oedd yn codi yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol ymhlith y rhai a oedd o blaid y cynnig. Dyma drosolwg o'r ymatebion - ni fwriedir rhoi ailadroddiad cynhwysfawr neu air-am-air. Mae'r holl ymatebion ysgrifenedig wedi cael eu darparu i Aelodau'r Cabinet.

Sylw 1

Cytuno i gynyddu'r gefnogaeth arbenigol sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY ar safle ysgol uwchradd.

Cytunodd ymatebwyr fod angen cynyddu darpariaeth addysg arbenigol o fewn y Fro. Nodai'r ymatebion hefyd fanteision cael darpariaeth o fewn ysgol uwchradd brif ffrwd, gan fod hyn yn golygu bod modd cyfuno mynediad at ddysgu prif ffrwd a chefnogaeth ychwanegol.

Nododd Estyn y byddai'r ddarpariaeth hon o gymorth i leihau'r galw yn Ysgol y Deri.

Teimlai'r ymatebwyr fod yr ymagwedd hon at addysg arbenigol yn gynhwysol ac yn fuddiol i'r disgyblion er mwyn chwalu rhwystrau cymdeithasol ac addysgol posibl. Nodwyd hyn hefyd fel agwedd gadarnhaol gan ddisgyblion yn eu sesiynau ymgynghori.

Mae hi hefyd yn fuddiol i weithwyr proffesiynol addysg feithrin eu sgiliau a'u dealltwriaeth o ystod o anghenion sydd gan ddisgyblion.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r math hwn o ddarpariaeth.

Atodiad C - Ymateb y disgyblion

Beth yw graddfa amser fwriadedig y datblygiad?

Mae'r adeilad ysgol newydd yn YUW i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2021.

Sut fyddai lle yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn cael ei ddyrannu i ddisgyblion?

Byddai'r Cyngor yn dyrannu disgyblion i'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol ar y cyd â thîm arwain YUW. Byddai hyn yn seiliedig ar asesiad o anghenion unigol y disgyblion.

Pwy fyddai'n rheoli ac yn cefnogi dysgwyr sy'n mynychu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol?

Byddai YUW yn cael cyllid ychwanegol ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Arbenigol i sicrhau bod y cymorth priodol ar gael. Byddai'r ysgol yn penodi arweinydd i reoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol gyda staff ychwanegol yn cael eu penodi i gefnogi dysgwyr unigol. Diben y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yw rhoi cymorth i ddisgyblion i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at addysg brif ffrwd.

Atodiad Ch - Yr ymgynghoriad a gynhaliwyd â phobl ifanc

Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg arbennig yn y Fro drwy sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore (YUW) o fis Medi 2021

Y Cefndir a'r Nod

- Yn ei ddogfen ymgynghori ar y cynnig uchod, mae Cyngor Bro Morgannwg yn nodi pwysigrwydd gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a, lle bo'n bosibl, y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r ysgol. Mae'r Cyngor yn credu'n gadarn y dylid rhoi cyfle i ddisgyblion YUW 'fynegi eu barn ynglŷn â'r cynnig hwn'.
- Trefnwyd 2 weithdy ymgynghori gyda grwpiau o fyfyrwyr ar 9 Tachwedd 2020 i gasglu eu safbwyntiau ynghylch y cynnig.
- Bydd yr wybodaeth a gasglwyd o'r sesiynau'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan Gabinet y Cyngor yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Methodoleg

- Gweithdy rhyngweithiol a oedd yn rhoi cyfle i ddisgyblion drafod a rhannu syniadau gyda'i gilydd.
- Dechreuwyd gyda thrafodaeth ar ystyr ymgynghori a pham ei bod hi'n bwysig siarad â disgyblion
- Daethpwyd i gytundeb ynghylch yr hyn a oedd yn creu trafodaeth dda/ymgynghoriad da.
- Wedyn esboniwyd y ddogfen ymgynghori wrthynt.
- Rhannwyd y disgyblion yn 2 is-grŵp i rannu a nodi eu syniadau eu hunain. Yna daeth y grwpiau'n ôl ynghyd i gynnal trafodaeth bellach ar y syniadau hyn, yn seiliedig ar y rheolau cymryd rhan a gytunwyd ar ddechrau'r sesiwn.
- Yn dilyn yr adborth, esboniwyd wrth y disgyblion y byddai eu sylwadau'n cael eu bwydo i adroddiad ar y sesiwn hon, ac y byddai'r adroddiad hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r cyngor yn rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd am yr ymgynghoriad hwn.

YUW - Gweithdai

Roedd y 2 weithdy yn cynnwys 8 disgybl ym mhob un (cydbwysedd o ferched a bechgyn) roedd gweithdy 1 yn cynnwys 8 myfyriwr o Flwyddyn 10; roedd gweithdy 2 yn cynnwys 8 myfyriwr o Flwyddyn 9)

Ymatebion y disgyblion:

Beth sy'n gwneud trafodaeth dda?

- Mae angen i bobl siarad
- Mae angen clywed y pwyntiau da a drwg
- Gwrando ar eraill
- Clywed barnau gwahanol
- Angen bod yn dawel tra bod eraill yn siarad
- Mynegi eich syniadau
- Bod yn garedig i eraill wrth iddynt fynegi barn

Manteision y cynllun arfaethedig

- Mwy o gyfleoedd [i'r disgyblion hynny] i fod yn rhan o ysgol arferol
- Yn rhoi cymorth i'r dysgwyr hynny
- Mwy o gydnabyddiaeth i bob disgybl
- Mae'n helpu anghenion plant penodol
- Mae'n tynnu'r pwysau oddi ar ddsbarthiadau prif ffrwd yn Ysgol y Deri (YYD)
- Grwpiau bach
- Awyrgylch da i deimlo'n ddiogel
- Rwtinau sy'n helpu disgyblion fel hyn
- Yn rhoi mwy o ryddid i'r disgyblion
- Bydd yn helpu'r disgyblion i ymdawelu
- Maen nhw [y disgyblion] yn gwybod bod noddfa ar gael iddynt yn yr ysgol
- Bydd yn osgoi tarfu [ar eraill] mewn gwersi
- Athrawon arbenigol sy'n deall eu hanghenion [byddant wrth law]
- Yn eu helpu i integreiddio i gymdeithas [yn y dyfodol]
- Cefnogaeth ychwanegol
- Mwy o ffocws ar eu hanghenion
- Maen nhw [y disgyblion] yn teimlo'n normal am eu bod gyda phobl â'r un anghenion.
- Mae'n tynnu pwysau oddi ar YYD
- Yn cyd-fynd â disgyblion eraill
- Os yw'r disgyblion ymhlith grŵp o bobl ag anghenion tebyg, byddant yn teimlo eu bod yn cael eu trin yr un peth
- Mae angen trin y disgyblion hynny yr un peth ag eraill a rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu
- Os ydych chi'n awtistig, dydi hynny ddim yn golygu eich bod chi'n dwp felly mae angen addysgu'r disgyblion yma a rhoi cefnogaeth iddynt mewn ardal fel hyn.

Anfanteision posibl y cynllun a gynigiwyd

- Gallai wneud i bobl deimlo'n ynysig
- Mae angen taro cydbwysedd rhwng y brif ffrwd a'r ganolfan adnoddau fel nad yw'r disgyblion yn teimlo'n rhy ynysig.
- Mae angen cael digon o staff i ymdrin â'r grŵp yma.
- A fydd digon o le? Does ond 20 o lefydd.
- A fydd yn achosi i rai disgyblion gael eu labelu?
- Gallai wneud iddynt deimlo'n wahanol i'r myfyrwyr eraill yn yr ysgol
- Gallai'r math o awtistiaeth sydd gan bob un ohonynt fod yn wahanol, gan achosi gwrthdaro

Sylwadau / Cwestiynau Cyffredinol:

- Angen sicrhau bod dysgwyr yn cael eu lleoli'n gywir
- Mae angen cynnal sgwrs â'r dosbarthiadau prif ffrwd ynglŷn â'r uned, a chreu 'ethos' o fod yn dderbyngar/goddefgar
- Mae angen cyfathrebu ymhlith y disgyblion (er mwyn inni gael gwybod beth maen nhw'n ei wneud)
- Ar adegau, bydd y disgyblion hyn yn cael mwy o ganmoliaeth nag y maent yn ei haeddu - ni fydd pobl heb awtistiaeth yn cael cydnabyddiaeth am wneud pethau da.
- Nid yw'r rheolau'n berthnasol iddynt ar adegau [a all greu ymdeimlad o annhegwch]

Sylwadau

- Cefais groeso cynnes i'r ddwy ysgol, gan barchu rheoliadau a chanllawiau Covid-19.
- Roedd ymatebion y disgyblion yn aeddfed ac ystyriol.
- Cymerodd yr holl ddisgyblion ran yn llawn yn y trafodaethau grŵp a'r trafodaethau tîm.

09.xi.20

gj

Atodiad D - Ymateb gan Estyn

Ymateb Estyn i'r cynnig i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Crynodeb/ Casgliad

Mae hwn yn gynnis gan Gyngor Bro Morgannwg. Y cynnig yw sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore a fyddai'n canolbwyntio ar ddisgyblion ag anhwylder y sbectwm awtistig (ASA).

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig hwn yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar ddysgwyr, a bod safonau addysgol yn yr ardal yn debygol o gael eu cynnal, o leiaf.

Disgrifiad a manteision

Mae'r Cyngor wedi amlinellu ei resymau dros y cynnig yn glir, sef bodloni'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ym Mro Morgannwg, a lleihau'r galw am leoedd yn Ysgol Y Deri (YYD), sef ysgol arbennig y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi rhestru manteision posibl y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys darparu cymorth targedig i ddisgyblion ag ASA mewn ysgol uwchradd brif ffrwd a threfnu darpariaeth ar gyfer niferoedd mwy o'r disgyblion hyn. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor wedi nodi un anfantais bosibl, sef tarfu ar reoli staff ac adnoddau yn ystod cyfnod gweithredu'r cynnig. Mae'n ymddangos bod y rhain yn ddilys ac yn rhesymol, fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi amlinellu'n glir sut mae'n bwriadu lliniaru yn erbyn un anfantais bosibl a nodwyd.

Mae'r Cyngor wedi nodi risg briodol, sef y gallai'r ganolfan adnoddau arbenigol fod yn llawn yn gynnar iawn. Mae'r Cyngor yn bwriadu monitro hyn, ac ehangu darpariaeth tymor byr yn unol â'r angen.

Nododd y Cyngor ddau opsiwn arall yr oeddent yn eu hystyried, sef parhau â'r sefyllfa bresennol neu sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol mewn ysgol

uwchradd arall. Mae'n ymddangos bod y rhesymau dros ddiystyru'r opsiynau hyn yn deg a phriodol.

Mae'r Cyngor wedi amlinellu trefniadau teithio addas ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol. Mae hyn yn cynnwys darparu cludiant am ddim i ddisgyblion ag ADY ar sail asesiad o'u hanghenion unigol.

Mae'r Cyngor wedi pennu'n briodol y byddai lleoli'r ganolfan adnoddau arbenigol mewn ysgol uwchradd brif ffrwd yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion ag ASA tra'n sicrhau y gallant gael addysg uwchradd brif ffrwd. Mae hyn yn debygol o leihau'r galw am leoedd yn YYD.

Mae'r Cyngor yn cyfeirio at ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg, fodd bynnag, nid yw'n ddigon clir sut mae'r cynnig hwn yn cyfrannu at y cynllun yn uniongyrchol. Yn ychwanegol, nid yw'r cynnig yn cyfeirio at sut bydd y cynnig hwn yn diwallu anghenion disgyblion sy'n siarad Cymraeg sydd ag ASA.

Mae'r cynigiwr wedi cynnwys asesiad o'r effaith ar y gymuned yn briodol, a ddaeth i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu ddiuedd ar yr wyth mesur allweddol a nodwyd gan yr awdurdod lleol. Mae'n ymddangos bod hyn yn gasgliad rhesymol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Nid yw Estyn wedi arolygu Ysgol Uwchradd Whitmore eto. Fe'i harolygwyd yn flaenorol ym mis Mawrth 2013 fel Ysgol Gyfun Y Barri gynt.

Mae'r Cyngor wedi cyfeirio'n addas at effaith debygol y cynnig ar safonau ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'n haeru y byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol yn sicrhau bod disgyblion ag ASA yn gallu cael addysg uwchradd brif ffrwd. Yn ychwanegol, byddai'r ganolfan yn darparu amgylchedd diogel i ddisgyblion ei ddefnyddio yn ystod amser cinio ac amser egwyl. Ar hyn o bryd, caiff yr ysgol ei rheoli gan Bennaeth Gweithredol a Phennaeth Ysgol. Mae'r ysgol yn bwriadu recriwtio rheolwr i fod â chyfrifoldeb am y ganolfan adnoddau arbenigol.

Mae'n ymddangos nad oes sylwadau ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn bwriadu lleihau unrhyw darfu posibl ar ddysgwyr o ganlyniad i'r cynnig.

Atodiad Dd - Cofnodion y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant ar y cynnig

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Mae recordiad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant (12 Tachwedd 2020) ar gael yma: <https://www.youtube.com/watch?v=6YolAi15Rpo&feature=youtu.be>

188 CYNNIG I SEFYDLU CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL YN YSGOL UWCHRADD WHITMORE O FIS MEDI 2021 (DLS)

Cyflwynodd Rheolwr Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif yr adroddiad, a hysbysai'r Pwyllgor ynghylch cynnig y Cyngor i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol i gefnogi dysgwyr ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth (ASD) yn Ysgol Uwchradd Whitmore o fis Medi 2021, ac i gael adborth y Pwyllgor i'w gynnwys yn rhan o adroddiad ymgynghori a fyddai ymhen amser yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar ôl cwblhau'r ymarfer ymgynghori.

Dywedodd y Swyddog fod y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, ar 5 Hydref 2020, wedi lansio'r ymgynghoriad ar y cynnig uchod. Roedd y ddogfen ymgynghori, a oedd wedi'i chynnwys yn Atodiad A yr adroddiad, wedi cael ei chyflwyno i ymgynghoreion rhagnodedig fel yr amlinellwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Aeth y Swyddog yn ei flaen i amlygu y byddai'r ganolfan adnoddau arfaethedig ar gael i ddisgyblion sy'n treulio mwyafrif eu hamser mewn addysg brif ffrwd, ond a allai ddefnyddio'r ganolfan i gael cefnogaeth, i addysgu gwersi ymlaen llaw ac i gael man diogel os oes angen. Roedd gofod addas ar gyfer y ganolfan adnoddau wedi cael ei neilltuo ar lawr gwaelod yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Whitmore (pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo), ac roedd cais am gyllid ychwanegol wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol, a dywedodd y Swyddog felly fod y gofod arfaethedig eisoes wedi'i gyllido drwy Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Hyd yma nid oedd rhyw lawer o ymatebion i'r cynnig wedi dod i law - dim ond 11. Fodd bynnag, nododd y Swyddog fod yr holl ymatebion a gafwyd o blaid y cynnig ac nad oedd unrhyw feysydd pryder i ymhelaethu arnynt ymhellach yn rhan o'r adroddiad. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod corff llywodraethu Ysgol Uwchradd Whitmore wedi cyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad yn nodi ei fod o blaid y cynnig, ac yr oedd wedi bod yn gefnogol wth gyfarfod â'r Swyddog ychydig ddiwrnodiau ynghynt. Roedd ymateb ffurfiol gan Estyn hefyd wedi dod i law yn nodi y byddai'r cynnig, o leiaf, yn cynnal safonau o fewn yr ysgol, felly ni chodwyd unrhyw broblemau.

Darparodd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant ychydig mwy o wybodaeth am natur y disgyblion a fyddai'n defnyddio'r ganolfan adnoddau, a chwaraewyd fideo wedi'i greu gan y National Autism Team, 'What is Autism?', i'r Pwyllgor a archwiliai sawl agwedd ar ASD drwy eiriau pobl ifanc ag awtistiaeth.

Dymunai'r Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio, gyda chaniatâd i siarad, ganmol y Pennaeth Gwasanaeth a'u dîm am hyrwyddo'r cynnig ac am yr uchelgais y dylai pob plentyn ym Mro Morgannwg gael lleoliad addysg sy'n cyd-fynd â'i anghenion. Aeth yr Aelod Cabinet yn ei flaen i gyfeirio at bwysigrwydd cefnogi pobl ifanc ag awtistiaeth fel eu bod yn gallu aros mewn addysg brif ffrwd, gan brofi amgylchedd cefnogol arbenigol ar yr un pryd lle bo'r angen.

Dymunai'r Is-gadeirydd fynegi bod y datblygiad hwn yn un i'w groesawu'n fawr, ac roedd hi'n falch bod y gwahanol agweddau ar y sbectrwm awtistiaeth yn cael eu cydnabod. Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd, o lygad y ffynnon, at brofiad a gafodd aelod o'i deulu o amgylchedd addysg anghefnogol fel dysgwr ag ASD, ac ailbwysleisiodd ei bod hi'n gadarnhaol bod y Cyngor yn ystyried cefnogi'r rhai a oedd y tu allan i addysg brif-ffrwd ac yn ymdrin ag anghenion y grŵp llai yma o ddisgyblion.

Ar ôl ystyried yr adroddiad,

ARGYMHELLWYD -

(1) BOD y Pwyllgor yn nodi'r ddogfen ymgynghori a'r atodiadau perthnasol ar y cynnig i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore o fis Medi 2021.

(2) BOD y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig a bod ei adborth yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a fydd yn cael ei lunio ar ôl cwblhau'r ymarfer ymgynghori.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor ar y cynnig.

(2) Er mwyn sicrhau bod adborth a geir gan y Pwyllgor yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn rhan o'r adroddiad ymgynghori.

Atodiad E - Ymateb gan gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Whitmore



Ysgol Uwchradd **Whitmore** High School
Port Road West, Y Barri/Barry, Bro Morgannwg/Valle of Glamorgan CF62 8ZJ
Ffôn/Telephone: (01446) 411411 E-bost/Email: WhitmoreHigh@valleofglamorgan.gov.uk

Eich Enw Llawn: **Antonia Forte**

Cod post: **CF62 7NH**

Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Whitmore

Gwneir yr ymateb hwn ar ran **Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Whitmore**

1. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbennig drwy sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Whitmore o fis Medi 2021?

Ydw

Esboniwyd pam: **Yn dilyn ymchwil helaeth, gan gynnwys taith maes i ganolfan debyg mewn ysgol arall, ym mis Chwefror 2019 trafododd Corff Llywodraethu YUW y cynnig i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn yr adeilad newydd a oedd wedi'i gynllunio'n rhan o Brosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol. Rydym wedi ystyried y manylion yn y papur ymgynghori diweddar hwn ac yn dymuno cadarnhau'r gefnogaeth honno.**

2. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion, nodwch y rhain isod.

Er bod y trefniadau cyllido a rheoli a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad yn cyfateb yn fras â'r rhai a drafodwyd y llynedd, rydym wedi cael cyfle i ystyried manylion pellach a ddarparwyd gan dîm y Fro. Mae ein cefnogaeth frwd a pharhaus o blaid y ganolfan hon yn ddibynnol ar y canlynol:

- **Ein dealltwriaeth bod ymrwymiad i sicrhau cyllid refeniw parhaus a digonol;**
- **Mai Ysgol Uwchradd Whitmore fydd yn gyfrifol am reoli'r Ganolfan.**
- **Bod digon o amser paratoi er mwyn sicrhau bod y ganolfan yn weithredol ar yr un pryd ag y bydd yr adeilad newydd yn cael ei agor. Yn benodol, rydym yn deall y bydd cyllid digonol ar gael i benodi'r swyddog arwain gweithredol o 1 Ebrill 2021.**
- **Y bydd gan y myfyrwyr a dderbynnir i'r ganolfan anghenion sy'n gyson â lefel y gefnogaeth a ddarperir - na fydd eu hanghenion yn fwy nac yn llai na'r hyn y gall y ganolfan ei ddarparu.**
- **Na all y ganolfan dderbyn mwy nag ugain o fyfyrwyr, ac y bydd angen ystyried cyfanswm y galw am leoedd yn Ysgol Uwchradd Whitmore, a'r pwysau canlyniadol ar ofod a chyfleusterau, wrth ystyried unrhyw gynllun i gynyddu'r nifer hwnnw.**

3. Unrhyw sylwadau eraill?

Yn yr achos annhebygol na ellir bodloni unrhyw un o'r amodau uchod yn y dyfodol, mae'r corff llywodraethu yn cadw'r hawl i ailystyried ein gefnogaeth o blaid y ganolfan.